BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL CAERDYDD A'R FRO

CARDIFF & VALE REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

HWB CYDLYNU ARLOESI RHANBARTHOL CAERDYDD A BRO MORGANNWG

CARDIFF AND VALE REGIONAL INNOVATION CO-ORDINATION HUB

# Deall Cyd-destun Strategol

## Datblygu syniad da

Mae gennych gynnig yr hoffech ei ddatblygu; pe gofynnid i chi sut y bydd yn gweithio mewn cyd-destun strategol, sut fyddech chi'n ateb?

Gall yr ymadrodd 'Cyd-destun Strategol' olygu gwahanol bethau i wahanol bobl – yn y bôn mae'n farn ehangach sy'n cwmpasu diddordebau sefydliadol, gofynion a phwysau y tu hwnt i'ch ardal gyfagos.

## Ble i ddechrau:

- Darllenwch gynlluniau ffurfiol eich sefydliad fel Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) neu gyfwerth
- Gwiriwch adolygiadau ac adroddiadau gwasanaeth sy'n tynnu sylw at broblemau a datrysiadau
- Edrychwch ar ddogfennau amcanion/strategaeth cenedlaethol sy'n ymwneud â'ch maes diddordeb
- Cysylltwch ag unigolyn arweiniol o fewn eich sefydliad

## Beth i'w ofyn i chi'ch hun

- A yw'n integreiddio i'r peth arall sydd ar waith, a phan gaiff ei integreiddio a yw'n dal i ddangos gwahaniaeth cadarnhaol?
- A fydd yn datrys heriau a phwysau hysbys ac a allwch chi ddangos tystiolaeth o hynny?
- A yw'n cyd-fynd â chynlluniau sefydliadol a chyda chynlluniau partneriaeth?
- A yw'n cyd-fynd â dogfennau strategaeth Llywodraeth Cymru ac a oes modd dangos hyn?
- Allwch chi ddangos ei fod yn cyfrannu at gyrraedd gofynion perfformiad a chanlyniadau, fel targedau perfformiad Llywodraeth Cymru a mesurau canlyniadau ar gyfer gwasanaethau a gomisiynwyd?
- A fyddai'n gweithio i dimau/gwasanaethau eraill?
- Sut gall y cynnig hwn fod o bwys i arweinwyr canol ac uwch? Allwch chi ddangos ei fod yn cyfrannu at fynd i'r afael â'u pryderon a'u heriau?

## Datblygu'r Cynnig

Efallai nad oes gennych yr atebion i gyd, ond drwy estyn allan at gydweithwyr yn eich tîm a thu hwnt, megis y Tîm Arloesi neu debyg yn eich sefydliad, gallwch gael gafael ar gymorth.

Bydd cydweithio â chydweithwyr i archwilio'r cyd-destun strategol ar gyfer eich cynnig yn eich helpu i archwilio ei botensial a sut mae'n mynd i weithredu ar raddfa ehangach

Ar gyfer meysydd datblygiadau sy'n symud yn gyflym, fel rhai digidol, gall fod atebion sefydliadol neu genedlaethol sydd wrthi'n cael eu datblygu, sy'n golygu y gallai ateb lleol achosi dyblygu neu gallai fod yn ddiangen. Siaradwch â chydweithwyr arbenigol i ddeall mwy.